

Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd

23 Ebrill, 11:00 – 13:00 Gweithdy Dove, Roman Road, Banwen, Castell-nedd

Yn bresennol:

Aelodau'r Tasglu

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James AC (Cadeirydd)
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates AC
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, Rebecca Evans AC
Ann Beynon, Cyfarwyddwr Anweithredol ac aelod o Gyngor CBI Cymru
Jocelyn Davies, Cyn-ddirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio
Judith Evans, Pennaeth Coleg y Cymoedd
Fiona Jones, Cyfarwyddwr, yr Adran Gwaith a Phensiynau
Gaynor Richards, CVC Castell-nedd Port Talbot
Brian Morgan, Athro Entrepreneuriaeth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd
Andrew Diplock, Entrepreneur, Cyngorydd Busnes a Buddsoddwr Angel
Madeleine Brindley, Cyngorydd Arbennig

Aelodau'r Bwrdd Rhaglenni

Maureen Howell, Cydraddoldeb a Ffyniant – Dirprwy Gyfarwyddwr
John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio (Uwch-swyddog Cyfrifol)

Tîm Tasglu'r Cymoedd

Phil Lewis, Pennaeth Ffyniant i Bawb
Laurie Hayward, Uwch-reolwr Rhaglenni, Tasglu'r Cymoedd
Nicola Leadbetter, Rheolwr Rhaglenni, Tasglu'r Cymoedd

Siaradwyr

Auriol Miller, Cyfarwyddwr, y Sefydliad Materion Cymreig
Keith Watts, Cydlynnydd Prosiect Rhanbarthau Clyfar, y Sefydliad Materion Cymreig
Caren Fullerton, Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru
Jonathan Fudge, Pennaeth Polisi Cynllunio, Llywodraeth Cymru
Gareth Hall, Uwch-reolwr Cynllunio, Llywodraeth Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Richard Sewell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Seilwaith TG
Glyn Jones, Prif Ystadegydd, Llywodraeth Cymru

Arsylwyr:

Lee Waters AC
Bonnie Lewis, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ymddiheuriadau:

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan AC
Dr Chris Jones, Cadeirydd Dros Dro, HEIW
Y Cyng Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru
Jeremy Miles AC
Alison Ward, Prif Weithredwr Cyngor Torfaen
Matt Lewis - Arweinydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ym maes Strategaeth Ddigidol

Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Croesawodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip Julie James aelodau'r tasglu i'r nawfed cyfarfod, ac esboniodd mai hi fyddai'n cadeirio'r cyfarfod oherwydd eu bod am ganolbwyntio ar y digidol.
2. Cydnabu JJ fod yna her fawr o'n blaenau i sicrhau nad oes unrhyw un wedi'i allgáu'n ddigidol yn y Cymoedd, yn ogystal â cheisio cadw llygad ar ddatblygiadau digidol a manteisio ar y chwyldro digidol rydym yn rhan ohono.

Eitem 2: Gweledigaeth Ddigidol ar gyfer y Cymoedd

3. Cyflwynodd Ann Beynon ei sleidiau.
4. Roedd angen mynd ati mewn ffordd glyfrach i gasglu syniadau digidol sy'n gweithio'n dda mewn mannau eraill, a defnyddio'r syniadau hynny yng Nghymru.
5. Byddai'r dinesydd bob amser yn dweud mai "syml sydd orau". Nid mater o greu syniadau cymhleth a thechnegol yw hyn, ond pethau syml a fydd yn gweithio i bawb.
6. Rhoddodd Auriol Miller grynoded o'r gwaith y mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn ei wneud. Cyflwynodd Keith Watts a fydd yn arwain ar Brosiect Rhanbarthau Clyfar sydd wedi cael cyllid o wahanol ffrydiau gwaith.
7. Bydd prosiect y Sefydliad Materion Cymreig yn edrych ar y darlun mawr o ran pwy sy'n gwneud beth, pam a ble. Bydd hefyd yn edrych ar safbwynt y dinesydd: beth yr hoffai pobl ar lawr gwlad ei weld yn digwydd a pham. Rhoddodd Caren Fullerton grynoded o'r gwaith digidol y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Tynnodd sylw at y ffaith bod yna gyswllt digidol ym mhob maes polisi.
9. Yn ymarferol, roedd yna rai materion penodol roedd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt, sef y seilwaith, cynyddu cysylltedd y rhyngwrwd ledled Cymru, band eang cyflym iawn a gwella cysylltedd mewn ysgolion. Roedd gwaith yn cael ei wneud hefyd i gynyddu prentisiaethau â gogwydd digidol, gan helpu'r rheini sydd wedi dioddef o ran eu haddysg.
10. Mae'r cyhoedd yn defnyddio cyfryngau digidol yn fwy ac yn fwy i fanteisio ar wasanaethau cyhoeddus. Byddai'n bwysig gweithio gyda'r cyhoedd wrth ddatblygu syniadau ar gyfer y dyfodol.
12. Awgrymodd Alun Davies AC (AD), er ein bod yn gwybod sut i gasglu a defnyddio data yn effeithiol, fod angen inni ganolbwyntio ar y cam nesaf, a beth y mae hyn yn ei olygu i ddinasyddion Cymru. Cododd AD gwestiwn digideiddio'r stryd fawr. Nid oeddem yn barod bum mlynedd yn ôl, ond beth allwn ni ei wneud erbyn hyn?
13. Aeth AB ymlaen i gyflwyno ei syniad cyntaf, sef cyflwyno cynllun WiFi Cymunedol yn y Cymoedd. Dylid rhoi cyfle i bobl yn y Cymoedd sydd heb ddigon o incwm i gael WiFi i ddefnyddio adeiladau cymunedol i gael mynediad iddo. Gellid creu ap hefyd i ddangos lle mae yna fannau cyhoeddus yn yr ardal sy'n cynnig y gwasanaeth hwn. Gellid gosod sticer y tu allan i leoliadau sy'n barod i ddarparu WiFi am ddim. Awgrymodd AB y gellid trefnu cynllun peilot i weld beth sy'n bosibl.
14. Esboniodd Richard Sewell fod Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus eisoes yn ymchwilio i hyn, ac y gellid treialu cynllun o'r fath mewn perthynas â VTF.
15. Holodd Glyn Jones a oedd modd creu'r ap heb orfod ailgofrestru. Gallai fod

16. yn bosibl i leoliadau ar rwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus.
Tynnodd Fiona Jones sylw at y ffaith bod canolfannau gwaith yn cynnig WiFi cyflym iawn. Mae modd mewngofnodi mewn unrhyw ganolfan waith i ddefnyddio'r rhyngwyd. Holwyd a fyddai aelodau o'r cyhoedd nad oedd yn defnyddio gwasanaethau canolfan waith yn gallu mynd i mewn i ddefnyddio'r WiFi yno, pe bai'n cael ei hysbysebu fel lleoliad WiFi am ddim.
16. Cyflwynodd AB ei syniad nesaf ar gyfer cynllun trafndiaeth gymunedol yn y Cymoedd er mwyn cludo pobl i'w hapwyntiadau iechyd ac yn ôl adref, gan weithio gyda Chris Jones (Aelod o'r Tasglu) a'r gymuned i weld beth yw'r ffordd orau o fynd ati. Defnydd posibl o'r Academi Feddalwedd Genedlaethol i greu gwasanaethau ffôn, gwefan ac ap er mwyn gwneud defnydd gwell o'r drafnidiaeth gymunedol sydd eisoes yn bod.
17. Cadarnhaodd Gaynor Richards y byddai Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot yn barod i helpu gyda'r prosiect hwn.
18. Soniodd LW am dechnoleg "Bwcabus" sydd ar gael mewn rhai rhannau o Gymru Wledig. Mae'n werth ymchwilio i'r defnydd sy'n cael ei wneud o hwnnw.
19. Nododd MB, pe bai'r gwasanaeth hwn yn cynnwys apwyntiadau nad oeddent yn rhai brys, yna y dylid ystyried Adolygiad Griffiths a roddodd sylw i hyn. Amlinellodd AB ei thrydydd syniad, sef darparu mwy o adnoddau i declyn mapio data Lle. Cafodd ei greu i fapio data amgylcheddol o dan ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Pe bai'n cael ei ehangu i ddarparu data sydd eu hangen ar fusnesau er mwyn buddsoddi a/neu ehangu yng Nghymru, byddai'n fwy gwerthfawr byth. Cadarnhaodd GJ fod yr adnodd hwn yn drysor nad yw rhai ystadegwyr o fewn Llywodraeth Cymru yn gwybod amdano eto hyd yn oed. Gallai fod yn adnodd o'r radd flaenaf ar lefel fyd-eang pe bai tîm yn cael ei greu a chyllid yn cael ei ddarparu ar ei gyfer.
20. Roedd John Howells yn teimlo bod pob un o'r tri syniad yn gyffrous, ond nododd mai adnodd i Gymru gyfan oedd Lle yn hytrach nag i'r Cymoedd yn benodol. Roedd AB yn teimlo, pe baen ni'n dechrau drwy nodi data o ardal y Cymoedd, a bod hynny'n llwyddiant, y gellid ei ddatblygu wedyn ar gyfer gweddill Cymru.
21. Byddai angen i AB drafod y mater gydag unigolion o'r Fargen Ddinesig i sicrhau eu cyfraniad nhw.
22. Cadarnhaodd AD y byddai'n awyddus i gwrdd ag AB i drafod y cerrig milltir a'r amserlenni ar gyfer y gwaith, ac y byddai diddordeb ganddo mewn gweld cynlluniau'r prosiect pan fyddent yn barod.
- 23.

Eitem 3: Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

24. Gwahoddodd JJ Jonathan Fudge a Gareth Hall i gyflwyno eu papur trafod ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
25. Nododd JF gysylltiad ar unwaith gyda'r pynciau dan sylw. Lle fyddai'r adnodd mapio a fyddai'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r Fframwaith Datblygu. Tynnodd JF sylw at y cyfle gwirioneddol i'r Fframwaith helpu i wneud rhai o dargedau VTF yn bosibl, ee hyrwyddo safleoedd tai ger lleoliadau canolog strategol.
26. Dywedodd AD y byddai'n awyddus i gael sgwrs gyda Lesley Griffiths ynghylch sut i annog awdurdodau lleol i gydweithio yn y prosiect hwn.

Dywedodd hefyd ei fod yn gobeithio y bydd hyn yn helpu i ysgogi penderfyniadau a dewisiadau, gan gynnwys mewn perthynas â chanolfannau strategol a strategaeth yr A465. Byddai angen inni hefyd weld datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r Metro, gan atal tagfeydd yng Nghaerdydd.

Eitem 4: Unrhyw fater arall

27.

Cadarnhaodd AD fod cynnig yn cael ei ddatblygu ar gyfer 8fed canolfan strategol yn Rhydaman. Gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu i nodi unrhyw broblemau roeddent yn eu rhagweld.

28.

Atgoffodd JJ yr aelodau ynghylch yr adroddiadau ar y prif bwyntiau, ac y dylid rhoi unrhyw sylwadau i Nicola Leadbetter neu Laurie Hayward. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Mehefin, yng Nghanolfan Richard Price, Pen-y-bont ar Ogwr.

29.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:00.